4 Mawrth 2020

YSGOL GYNRADD LLANFAIR YM MUALLT
NEWYDDION DIWEDDARAF

Eisteddfod – Dydd Gwener Mawrth

Gofynnwn i'r plant wisgo dillad coch, gwisg traddodiadol Cymreig, crys rygbi neu bêl-droed ar gyfer y dydd. Os nad oes gan blant unrhywbeth o'r natur hon yna gallant wisgo rhyw liw arall yn unol â Dydd Gŵyl Dewi, h.y. melyn neu wyrdd. Yn methu hynny, gallant wisgo eu dillad eu hunain. Hefyd, mae croeso iddynt ddod â chlustog i eistedd arni.

Cadw germau dan reolaeth

Rydym yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ar y coronafeirws. Nid ydym am godi lefelau pryder ymhlith disgyblion ond rydym am eich sicrhau ein bod yn dilyn canllawiau LlC drwy wneud ymdrech fwy penderfynol nag arfer i sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn drylwyr gyda sebon a dŵr. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i amseroedd prydau bwyd ac ar ôl chwarae. Mae ein glanhawyr yn gweithio'n galed i sicrhau bod pob arwyneb yn lân ac yn rhydd o germau. Rydym wedi darparu tisws ym mhob dosbarth 'i'w ddal, ei ladd a'i daflu '. Mae Karen Lynch ein nyrs ysgol hefyd yn bwriadu ddod i'r ysgol i siarad â'r plant am bwysigrwydd golchi dwylo. Cynghorir i rieni gyfeirio at Iechyd Cyhoeddus Cymru ar phw.nhs.wales neu i ffonio eu llinell gymorth ar 0300 00 300 32 am fwy o gymorth, yn hytrach na ffonio'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol am gyngor pellach.

Cwricwlwm newydd i Gymru 2022

Ym mis Ionawr, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru y drafft diweddaraf o gwricwlwm newydd Cymru sydd i'w weithredu'n llawn mewn ysgolion yn 2022. Mae'r cwricwlwm mewn gwirionedd yn fframwaith ac yn gyfres o ganllawiau i ysgolion eu defnyddio i gynllunio a datblygu eu cwricwlwm eu hunain. Rydym yn ystyried hwn yn gyfle cyffrous i ni ddatblygu cwricwlwm sy'n gyfoethog iawn, yn ddeniadol ac yn berthnasol i'n disgyblion, ond mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod bod llawer iawn o waith i'w wneud dros y ddwy flynedd nesaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu i ysgolion gael diwrnod HMS ychwanegol eleni er mwyn i ysgolion allu dechrau gweithio gyda'i gilydd ar y cwricwlwm newydd. Ar gyfer ysgolion clwstwr Llanfair-ym-Muallt bydd hyn yn digwydd Ddydd Gwener 26 Mehefin.

Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i bob ysgol ryddhau athrawon o ddyletswyddau addysgu am gyfnod cymharol fach er mwyn rhoi amser iddynt weithio ar y cwricwlwm newydd. Mae'n bosibl y byddwch yn ymwybodol bod eich plentyn wedi cael ei addysgu gan rywun ar wahân i'w athro/athrawes dosbarth o bryd i'w gilydd ond deallwn fod yn rhaid i ni wneud hyn o ddifrif ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl. Ein prif flaenoriaeth yw cynnydd a lles eich plant felly siaradwch â ni os oes gennych unrhyw bryderon.

Nosweithiau rhieni

Dylech gofio bod cyfarfodydd ymgynghori â rhieni wedi'u trefnu ar gyfer 24 a 26 Mawrth.
Bydd apwyntiadau yn dilyn maes o law.
Cofion
G. Cornelius